# Polisi Rheoli Risg

<table>
<tr><td>Crynodeb o'r polisi:</td><td>Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn nodi, lleihau ac atal canlyniadau/digwyddiadau annymunol. Bydd yn adolygu digwyddiadau yn y gorffennol er mwyn atal/lleihau digwyddiadau yn y dyfodol. Bydd rheoli risg yn rhan anhepgor o broses cynllunio a rheoli'r heddlu.</td></tr>
<tr><td>Rhif y polisi:</td><td>007/2021</td></tr>
<tr><td>Rheoli fersiynau:</td><td>
<table>
<tr><th>Fersiwn</th><th>Dyddiad</th><th>Awdur</th><th>Rhesymwaith</th></tr>
<tr><td>14</td><td>04/02/21</td><td>[redacted]</td><td>Fformat wedi'i ddiweddaru</td></tr>
<tr><td>13</td><td>14/12/17</td><td>[redacted]</td><td>Adolygu strwythurau'r Heddlu</td></tr>
<tr><td>12</td><td>03/03/17</td><td>[redacted]</td><td>Trosglwyddo trefniadau llywodraethu i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu, sydd newydd ei sefydlu</td></tr>
<tr><td>11</td><td>01/03/16</td><td>[redacted]</td><td>Cwblhau'r adran gydymffurfiaeth a newid manylion cyswllt</td></tr>
<tr><td>10</td><td>28/05/15</td><td>[redacted]</td><td>Newid o ran trefniadau llywodraethu Rheoli Risg</td></tr>
<tr><td>9</td><td>24/01/14</td><td>[redacted]</td><td>Cynnwys dolen i'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth</td></tr>
<tr><td>8</td><td>01/11/13</td><td>[redacted]</td><td>Diwygio dolenni i wefan Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *7* | *25/10/13* | [redacted] | *Diweddaru dolenni i wefan Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu* |
| | *6* | *12/08/13* | [redacted] | *Wedi'i ail-ffurfio er mwyn ffitio'r templed polisi corfforaethol newydd* |
| | *5* | *06/11/12* | [redacted] | *Ailysgrifennu'r polisi er mwyn adlewyrchu lansio Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu (Gwneud Penderfyniadau)* |
| | *4* | *27/07/10* | [redacted] | *Newid cyfeiriad at y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i'r Dirprwy Brif Gwnstabl a gwneud mân ddiwygiadau* |
| | *3* | *07/02/08* | [redacted] | *Diwygio manylion cynrychiolaeth Awdurdod yr Heddlu ar y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol* |
| | *2* | *20/02/07* | [redacted] | *Cynnwys adrannau ar strategaeth a chanlyniadau* |
| | *1* | *20/07/05* | [redacted] | *Fersiwn Gyntaf* |
| **Dyddiad gweithredu:** | *Gweithredwyd y polisi cyntaf : 20/07/05* | | | |
| **Dyddiad adolygu:** | *04/02/23* | | | |
| **Perchennog/Cyswllt:** | *Y Prif Uwch-arolygydd, Llywodraethu a Newid* | | | |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth** | ***Amherthnasol gan fod polisi'n bodoli ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru i mewn i fformat newydd.***<br><br>02.03.21 - Cymeradwywyd yr adolygiad gan [redacted] Rheolwr Gwybodaeth/Swyddog Diogelu Data |
| **Cymeradwyaeth Derfynol** | ***Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth***<br><br>02.03.21 - [redacted] Rheolwr Gwybodaeth/Swyddog Diogelu Data. Diwygiwyd enw'r gyfarwyddiaeth. |
| **Ymgynghori a Chymeradwyo** | ***Amherthnasol gan fod polisi'n bodoli ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru i mewn i fformat newydd.*** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfieithiad Saesneg** | ***Oes*** | ***X*** | ***Nac oes*** | |

# 1. Datganiad Polisi

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn nodi, dadansoddi a blaenoriaethu'r risgiau mae'n eu hwynebu. Bydd yn eu rheoli mewn modd cost effeithiol er mwyn uchafu ansawdd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth gwasanaeth a chynnal ei enw da. Bydd rheoli risg yn rhan anhepgor o broses rheoli a chynllunio'r Heddlu.

Mae manteision rheoli risg yn effeithiol i Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys:

- targedu adnoddau'n well;
- cyflawni amcanion yr Heddlu'n well;
- cyflenwi newid a phrosiectau arloesol yn llwyddiannus;
- cyflenwi gwasanaethau'n well;
- amddiffyn / gwella enw da;
- costau is mewn perthynas â risg, (yswiriedig a diyswiriant);
- llai o ddigwyddiadau neu aflonyddwch annisgwyl, h.y. llai o "syrpreisys cas"; a
- phenderfyniadau gwybodus - llai o dybiaethau goddrychol, dealltwriaeth briodol o beryglon a rheoliadau, ystyriaeth wrthrychol.

***Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):*** *Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

Diffinnir risg fel; "**effaith ansicrwydd ar amcanion**."[1] Gall risgiau fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, h.y. gallant fod yn gyfleoedd neu'n fygythiadau.

Diffinnir rheoli risg fel; **"gweithgareddau cydlynol ar gyfer cyfeirio a rheoli sefydliad mewn perthynas â risg."**[1]

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'r Model Penderfynu Cenedlaethol fel ei arf diofyn ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac fel y fframwaith ar gyfer rheoli risg. Hysbysir y Model gan 10 "Egwyddor Risg" Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, sydd wedi'u mabwysiadu gan Heddlu Dyfed-Powys.

Gellir cael mynediad i'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig, a ddatblygwyd gan y Coleg Plismona, ar-lein. Maent yn cwmpasu pob maes plismona drwy feysydd pwnc allweddol. Mae dwy adran berthnasol ar gyfer rheoli risg;

**Risg** – cyflwynir rheoli risg a'r 10 "Egwyddor Risg".

**Y Model Penderfynu Cenedlaethol** – y broses i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar risg ym mhob maes gweithgarwch gweithredol, cynllunio a chymorth busnes.

# 3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Mae'r polisi hwn yn nodi'r trefniadau sydd mewn grym ar gyfer rheoli risgiau, hwyluso cyfeiriad clir ac effeithiol, a chefnogi cyflawni cydymffurfiaeth â deddfwriaethau, oblygiadau statudol a safonau arfer da. Bydd yn cyflawni hyn drwy;

- sicrhau y rheolir risgiau'r Heddlu mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaethau ac awydd yr Heddlu am risg;
- darparu fframwaith rheoli risg ar gyfer sicrhau cysondeb ymagwedd o gwmpas rheoli risg;
- annog ymagwedd ragweithiol tuag at reoli risg;

[1] ISO 31000 : 2009 *Rheoli risg – Egwyddorion a chanllawiau*

- hyrwyddo proses rheoli risg wybodus sy'n cael ei rheoli'n dda a gwella ansawdd penderfyniadau; a
- sicrhau y diogelir asedau'r Heddlu (pobl, gwybodaeth, eiddo, cyllid ac enw da);

Cefnogir y polisi hwn gan ddogfen yr Heddlu; Canllaw ar gyfer Rheoli Risgiau a'r Cofrestri Risg.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd gydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd  cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

| Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Llywodraethu a Newid |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 01/03/16 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 12/12/17 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Nodir rolau a chyfrifoldebau'r partïon sy'n gysylltiedig â chyflenwi yn erbyn y polisi hwn isod;

**Bydd y Prif Uwch-arolygydd Llywodraethu a Newid** yn gyfrifol am:

- oruchwylio'r ymagwedd gorfforaethol tuag at reoli risg;
- sicrhau creu a chynnal y cofrestri risg corfforaethol a dynamig; ac

- arwain ar faterion Risg ar Fwrdd Gweithredol yr Heddlu.

**Bydd y Prif Uwch-arolygydd Llywodraethu a Newid, drwy Fwrdd Gweithredol yr Heddlu,** yn gyfrifol am y canlynol mewn perthynas â rheoli risg:

- creu cofrestri risg yr Heddlu;
- cydlynu rheoli risg ar draws yr Heddlu, gan gynnwys lle mae cysylltiadau priodol â phartneriaid allanol a chyrff eraill;
- sicrhau bod cyngor a hyfforddiant priodol ar reoli risg ar gael i bob swyddog ac aelod staff;
- cefnogi arweinwyr maes busnes i sicrhau bod gweithdrefnau a chofnodion rheoli risg yn cael eu cynnal yn briodol, bod penderfyniadau'n cael eu cofnodi, a bod llwybrau archwilio clir yn bodoli er mwyn sicrhau didwylledd ac atebolrwydd;
- monitro canlyniadau rheoliadau mewnol yr Heddlu drwy ddangosyddion allweddol;
- adolygu'r adnoddau sydd angen i gyflenwi rheoli risg effeithiol; a
- datblygu arfer gorau ar reoli risg drwy gyfeiriad at safonau rheoli risg, canllawiau cyhoeddedig a chymariaethau â sefydliadau eraill.

Mae'r Prif Uwch-arolygydd, Llywodraethu a Newid, yn gyfrifol am y polisi hwn, a gellir cysylltu ag ef/hi yn allanol drwy safle Rhyngrwyd Heddlu Dyfed-Powys.

Wrth gyflawni nodau ac amcanion y polisi hwn, bydd yr Heddlu'n gwneud y peth iawn yn y ffordd iawn ac yn cyffwrdd ar rai o naw egwyddor plismona'r Cod Moeseg:

- Atebolrwydd ac Unplygrwydd – mae'r polisi'n glir ac yn sicrhau unplygrwydd o fewn ei ddiben;
- Tegwch – mae'r polisi'n gyfreithlon a chymesur ac yn parchu hawliau unigolion;
- Arweinyddiaeth – mae'r polisi'n cynnwys cyfrifoldebau a ddiffinnir yn glir; a
- Gwrthrychedd – mae'r polisi'n hyrwyddo ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth lle bynnag y bo modd ac nid yw'n anghyfreithlon neu'n gwahaniaethau'n annheg.

**COD MOESEG**

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Llywodraethu a Newid |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 01/03/16 |

# 5. Gweithredu ac adolygu

Mewn ymgynghoriad â'r Prif Uwch-arolygydd, Llywodraethu a Newid, bydd Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg yr Heddlu'n monitro'r polisi, gan naill ai adrodd ei fod dal yn "addas ar gyfer y diben" neu'n cyflwyno drafft diwygiedig ar gyfer cymeradwyaeth Bwrdd Gweithredol yr Heddlu, i'w alluogi i ymgymryd ag adolygiad blynyddol, (gweler isod).

Bydd yr adolygiad ac unrhyw ddiwygiadau'n ystyried;
- Effeithlonrwydd y polisi, fel yr asesir gan Fwrdd Gweithredol yr Heddlu ac archwiliad mewnol/allanol;
- Unrhyw newidiadau i ddeddfwriaethau/Canllawiau'r Swyddfa Gartref;
- Heriau i'r polisi; ac
- Unrhyw eitemau aneffeithlon mewn perthynas â gweithredu a nodwyd.

Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Prif Uwch-arolygydd, Llywodraethu a Newid, o fewn amserlenni a gyhoeddwyd ar gyfer polisïau'r Heddlu.

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

## Addas i'w Chyhoeddi

| Addas i'w Chyhoeddi | Ydyw/Nac Ydyw | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 01/03/16 | [redacted] |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi : Amherthnasol** | | | [redacted] |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu – Amherthnasol**

(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol.  Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |